# CWMPAS: Bwrdd Diogelu Oedolion Canolbarth a Gorllewin Cymru

## Is-Grŵp Adolygu a Monitro Ansawdd Ymarfer Oedolion

**CWMPAS** (*Cydweithio a Chynnal Partneriaeth wrth Ddiogelu Oedolion*) yw'r enw ar gyfer y Bwrdd Diogelu Oedolion Rhanbarthol yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru, sy'n cwmpasu Ceredigion, Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro a Phowys.

**Diben:**

Diben Is-Grŵp Adolygu a Monitro Ansawdd Ymarfer Oedolion CWMPAS yw:

- Symbylu, gwella a goruchwylio Adolygiadau Ymarfer Oedolion yn unol â Chanllawiau Llywodraeth Cymru ar Adolygiadau Ymarfer Oedolion, sef '*Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl – cyfrol 3 – Adolygiadau Ymarfer Oedolion*' o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant [Cymru] 2014,
- Monitro 'Pryderon Cynyddol' mewn perthynas â Chartrefi Gofal
- Nodi unrhyw themâu ansawdd sy'n dod i'r amlwg o ran y ddwy swyddogaeth hon, ac amlygu'r rhain i Fwrdd Gweithredol CWMPAS a grwpiau rhanbarthol eraill, gan gynnwys yr Is-Grwpiau Hyfforddiant Rhanbarthol a Pholisïau a Gweithdrefnau Rhanbarthol.

**Amcanion:**

- Hyrwyddo safonau uchel o waith diogelu
- Cefnogi dysgu proffesiynol a sefydliadol a hyrwyddo gwelliant mewn gwaith diogelu oedolion rhwng asiantaethau yn y dyfodol
- Meithrin diwylliant o welliant parhaus
- Nodi a gweithredu yn unol â themâu a nodwyd ar draws gwasanaethau
- Rhoi cyfeiriad i archwiliadau lleol o ran themâu penodol i fod yn destun y broses archwilio
- Edrych ar themâu materion ymarfer ansawdd a fydd wedyn yn cael eu bwydo'n ôl i Fwrdd Gweithredol CWMPAS
- Sicrhau cysondeb polisi ac ymarfer ar draws y pedwar awdurdod lleol.

**Aelodaeth:**

Bydd y Grŵp yn cael ei gadeirio gan aelod o Fwrdd Gweithredol CWMPAS ac yn cael ei gefnogi gan yr Uned Fusnes. Bydd aelodaeth yn cynnwys cynrychiolaeth briodol o bob asiantaeth bartner CWMPAS. Bydd unrhyw gyngor cyfreithiol y mae angen ei roi i'r Grŵp yn cael ei amlygu a'i geisio fesul achos. Bydd rolau'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd o ddau sefydliad statudol gwahanol.

Aelodaeth ym mis Gorffennaf 2017:

| **Mynychwyr** | **Ymddiheuriadau** |
|---|---|
| Avril Bracey – Cadeirydd | Pennaeth Iechyd Meddwl, Anableddau Dysgu a Diogelu Oedolion, Cyngor Sir Gâr |
| Jason Bennett | Pennaeth Gwasanaethau Oedolion, Cyngor Sir Penfro |
| Carys James | Pennaeth Gwasanaethau Oedolion, Cyngor Sir Ceredigion |
| Jen Jeffreys | Pennaeth Gwasanaethau Oedolion, Cyngor Sir Powys |
| Debbie Pachu | Nyrs Ddynodedig, Diogelu, Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| DCI Ifan Charles | Diogelu, Amddiffyn Pobl sy'n Agored i Niwed, Heddlu Dyfed Powys |
| Sonia Mason | Pennaeth Diogelu, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys |
| Nicola Edwards | Pennaeth Diogelu Plant ac Oedolion, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Sian Passey | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Sicrwydd Nyrsio a Diogelu, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Donna Pritchard | Rheolwr Gwasanaeth, Arweinydd Strategol ar gyfer Diogelu Oedolion, Cyngor Sir Ceredigion |
| Karen Arthur | Rheolwr Diogelu Oedolion, Cyngor Sir Powys |
| Cathy Richards | Uwch Reolwr Diogelu, Cyngor Sir Gâr |
| Karen Toohey | Cadeirydd Is-Grŵp Adolygu Ymarfer Plant |
| Deanne Martin | Pennaeth Uned Gyflawni Leol Dyfed Powys, Cwmni Ailsefydlu Cymunedol Prawf (CRC) |
| Christine Harley | Pennaeth Uned Gyflawni Leol Dyfed Powys, Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol |
| Julie Breckon | Rheolwr Busnes Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru |

**Amlder cyfarfodydd:**

Bydd cyfarfodydd yn cael eu trefnu bob chwarter, a byddant yn cael eu cynnal yn y rhanbarthau yn eu tro. Pan fo modd, bydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal ar yr un diwrnod ac yn yr un lleoliad â'r Is-Grŵp Adolygu Ymarfer Plant. Bydd cyfleusterau fideo gynadleddau yn cael eu cynnig mewn lleoliadau eraill yn yr ardal.

**Llywodraethu:**

Bydd Is-Grŵp Adolygu Ymarfer Oedolion a Monitro Ansawdd CWMPAS yn adrodd yn uniongyrchol i Fwrdd Gweithredol CWMPAS. Er bod trefniadau llywodraethu ac adrodd i Fwrdd Gweithredol CWMPAS, bydd y grŵp yn datblygu ac yn meithrin llwybrau a sianelau cyfathrebu clir gyda'r Is-Grwpiau Hyfforddiant Rhanbarthol a Pholisïau a Gweithdrefnau Rhanbarthol ynghylch unrhyw faterion ymarfer ac anghenion dysgu a nodwyd.

**Swyddogaethau:**

1. Gweithio o fewn y fframwaith a amlinellir yn 'Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl – cyfrol 3 – Adolygiadau Ymarfer Oedolion' O Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant [Cymru] 2014.

2. Derbyn cyfeiriadau ac ystyried achosion yn erbyn y meini prawf a amlinellir yn yr arweiniad Adolygu Ymarfer Oedolion uchod, a gwneud argymhellion priodol i Gadeirydd Bwrdd Gweithredol CWMPAS mewn perthynas â'r canlynol:

a. p’un a yw achos yn bodloni’r meini prawf ar gyfer Adolygiad Ymarfer Oedolion cryno neu estynedig; neu
b. os nad yw achos yn bodloni’r meini prawf ar gyfer Adolygiad Ymarfer Oedolion cryno neu estynedig, gwneud argymhellion priodol mewn perthynas â ph’un a fyddai Fforwm Proffesiynol Amlasiantaethol yn fuddiol i nodi canlyniadau dysgu posibl.


3. Os yw achos yn bodloni’r meini prawf ar gyfer Adolygiad Ymarfer Oedolion cryno neu estynedig, sefydlu panel adolygu amlasiantaethol i gydlynu’r adolygiad.
4. Bydd Cadeirydd yr Is-Grŵp Adolygu Ymarfer Oedolion yn rhoi diweddariadau rheolaidd i Fwrdd Gweithredol CWMPAS ynglŷn â chanlyniad unrhyw gyfeiriadau newydd a dderbynnir a chynnydd unrhyw Adolygiadau Ymarfer Oedolion parhaus ac yn rhoi’r raddfa amser ar gyfer cwblhau.
5. Datblygu a monitro cynlluniau gweithredu rhanbarthol sy’n deillio o argymhellion a phwyntiau dysgu o Adolygiadau Ymarfer Oedolion a Fforymau Proffesiynol Amlasiantaethol unigol.
6. Nodi ac amlygu themâu cyffredin mewn perthynas ag ansawdd ymarfer. Materion strategol ynghylch pryderon cynyddol a fydd yn cael eu rhannu â Bwrdd Gweithredol CWMPAS.
7. Awgrymu atebion i themâu a nodwyd y gellir eu rhannu â Bwrdd Gweithredol CWMPAS a grwpiau rhanbarthol eraill, gan gynnwys yr Is-Grwpiau Hyfforddiant Rhanbarthol a Pholisïau a Gweithdrefnau Rhanbarthol.
8. Ystyried unrhyw weithgarwch a nodwyd ledled rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru o ran pryderon cynyddol, a gwneud argymhellion ynglŷn ag unrhyw gamau neu ganlyniad sydd eu hangen.
9. Gellir trefnu cyfarfodydd neilltuol yn ychwanegol i galendr arferol y cyfarfodydd, pan fo’n briodol.

**Atodiadau:** **Tudalen**


- Atodiad 1 – Strwythur Bwrdd Diogelu ac Is-Grŵp Canolbarth a Gorllewin Cymru 5
- Atodiad 2 – Proses Adolygu Ymarfer Oedolion CWMPAS 6
- Atodiad 3 – Siart Llif Adolygu Ymarfer Oedolion (cymerwyd yn uniongyrchol o Arweiniad 2016) 7
- Atodiad 4 – Cyfeirio ar gyfer ystyriaeth yn yr Is-Grŵp Adolygu Ymarfer Oedolion 8-9
- Atodiad 5 – Rhestr Wirio Meini Prawf Adolygu Ymarfer Oedolion 10
- Atodiad 6 – Argymhelliad gan yr Is-Grŵp i Gadeirydd CWMPAS 11-12
- Atodiad 7 – Penderfyniad Cadeirydd CWMPAS ar ran y Bwrdd Gweithredol 13
- Atodiad 8 – Amlinelliad a Chylch Gorchwyl yr Adolygiad Ymarfer Oedolion 14-20


**D.S.: Mae'r holl atodiadau wedi eu seilio ar arweiniad Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd yn 'Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl – cyfrol 3 – Adolygiadau Ymarfer Oedolion' o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant [Cymru] 2014**

**Atodiad 1**


Byrddau Gweithredol Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru
Is-Grŵp Polisïau a Gweithdrefnau
Yn arwain ar flaenoriaethu, datblygu ac adolygu polisïau a gweithdrefnau
Yn trosi dysgu beirniadol yn ganllaw ar ymarfer
Is-Grwpiau AYP (CPR) ac AYO (APR)
Yn goruchwylio ac yn nodi AYO (APR) / AYP (CPRs) cryno ac estynedig
Yn monitro gweithredu'r cynllun gweithredu
Is-Grŵp Hyfforddiant
Yn nodi ac yn cefnogi hyfforddiant rhanbarthol pwrpasol
Yn cefnogi ac yn datblygu Adolygwyr AYO (APR) /AYP (CPR) enwebedig
Yn cysylltu â rheolwyr Hyfforddiant ALl
Yn lledaenu canlyniadau dysgu i hyfforddiant
Grwpiau Gweithredol Lleol (GGLl)
Mae grwpiau Plant ac Oedolion yn coladu gwybodaeth am:
Ymarfer/ grwpiau gwybodaeth / diffygion
Bylchau / diffygion mewn polisïau a gweithdrefnau
Canlyniad FfPAA (MAPFs)
Sicrhau Ansawdd a Throsglwyddo Pryderon i lefel uwch o ran cartrefi gofal
Canlyniad digwyddiadau Dysgu Beirniadol Cyfiawnder Ieuenctid
Canlyniad Adolygiadau Dynladdiadau Domestig
Gwybodaeth comisiynu / data

**Atodiad 2** **Proses Gyfeirio Adolygu Ymarfer Oedolion CWMPAS**

**1**

- **Cyfeiriwyd yr 'Achos Newydd i'w Ystyried' at yr Is-Grŵp Adolygu Ymarfer Oedolion a Monitro Ansawdd gan Grŵp Gweithredol Lleol:**
  - *Uned Fusnes yn rhestru ar yr agenda ar gyfer yr Is-Grŵp Adolygu Ymarfer Oedolion a Monitro Ansawdd nesaf*

**2**

- **Mae'r Is-Grŵp Adolygu Ymarfer Oedolion a Monitro Ansawdd yn ystyried yr achos a gyfeiriwyd yn erbyn meini prawf a amlinellir yn 'Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 3 - Adolygiadau Ymarfer Oedolion'**
  - *Nodi adolygiadau cyfochrog ynglŷn â'r achos penodol*
  - *Nodi a oes mwy nag un rhanbarth dan sylw - cytuno ar drefniadau cydweithredu a'r ffordd ymlaen*

**3**

- **Mae'r Is-Grŵp Adolygu Ymarfer Oedolion a Monitro Ansawdd yn gwneud penderfyniad ynghylch p'un a yw'r achos yn bodloni'r meini prawf ar gyfer Adolygiad Ymarfer Oedolion cryno neu estynedig**

**4**

- **Os nad yw achos yn bodloni'r meini prawf ar gyfer Adolygiad Ymarfer Oedolion cryno neu estynedig, ystyriwch a fyddai Fforwm Proffesiynol Amlasiantaethol yn fuddiol i nodi canlyniadau dysgu posibl**

**5**

- **Mae Cadeirydd yr Is-Grŵp Adolygu Ymarfer Oedolion a Monitro Ansawdd yn gwneud argymhelliad ar ran yr Is-Grŵp i Gadeirydd Bwrdd Gweithredol CWMPAS**

**6**


- **Mae Cadeirydd CWMPAS yn cymeradwyo neu'n gwrthod yr argymhelliad ar ran y Bwrdd Gweithredol**
  - *Os caiff yr argymhelliad i gynnal Adolygiad Ymarfer Oedolion ei gymeradwyo, mae Cadeirydd CWMPAS yn hysbysu Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol (NISB) am y penderfyniad*
  - *Os caiff yr argymhelliad i gynnal Fforwm Proffesiynol Amlasiantaethol ei gymeradwyo, bydd Cadeirydd CWMPAS yn hysbysu'r Is-Grŵp Adolygu Ymarfer Oedolion a Monitro Ansawdd am y penderfyniad*
  - *Os na chaiff yr argymhelliad ei gymeradwyo, mae Cadeirydd CWMPAS yn hysbysu'r Grŵp Adolygu Ymarfer Oedolion a Monitro Ansawdd am y penderfyniad*

**7**

- **Os bydd Adolygiad Ymarfer Oedolion yn cael ei gynnal:**
  - *Bydd yr Is-Grŵp Adolygu Ymarfer Oedolion a Monitro Ansawdd yn sefydlu Panel Adolygu Ymarfer Oedolion i gydlynu'r Adolygiad Ymarfer Oedolion*
- **Os bydd Fforwm Proffesiynol Amlasiantaethol yn cael ei gynnal:**
  - *Bydd Cadeirydd yr Is-Grŵp Adolygu Ymarfer Oedolion a Monitro Ansawdd yn hysbysu Cadeirydd y Grŵp Gweithredol Lleol*
  - *Wedyn, bydd Cadeirydd y Grŵp Gweithredol Lleol yn cydlynu'r Fforwm Proffesiynol Amlasiantaethol lleol*

**Atodiad 3**

## Siart lif o'r broses adolygiadau ymarfer oedolion



**Atodiad 4**

## Cyfeiriad at Is-Grŵp Adolygu Ymarfer Oedolion CWMPAS i'w ystyried

**Oddi wrth:**

**Parthed: CWMPAS */**** (   )**

**Dyddiad y Cais:**

| **Amlinelliad bras o'r Achos/Digwyddiad**<br><br>Dylech gynnwys statws cyfreithiol yr unigolyn cyn y digwyddiad, ac unrhyw gamau diogelu adferol uniongyrchol a gymerwyd gan asiantaethau perthnasol. |
|---|
| |

| **Rhesymwaith dros y Cais**. |
|---|
| |

| Unrhyw wybodaeth arall berthnasol |
|---|
| |

| **Asiantaethau sy'n gysylltiedig â'r achos**<br>(E.e. Gwasanaethau Oedolion, yr Heddlu, Gwasanaeth Prawf, Bwrdd Iechyd, Awdurdod Lleol, WAST, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Arall.) |
|---|
| |
| |
| |
| |
| |
| |

**I'w lenwi gan yr asiantaeth gyfeirio:**

Enw: Dynodiad:

Manylion cyswllt:

**Atodiad 5**

# Is-Grŵp Adolygu Ymarfer Oedolion CWMPAS

**Dyddiad y Cyfarfod:** 

**Parthed: CWMPAS */**** (   )**

## Adolygu Ymarfer Oedolion: Rhestr wirio meini prawf

*Gellir defnyddio'r rhestr wirio hon i gefnogi'r penderfyniadau a wneir ynglŷn â'r meini prawf arweiniad o dan 'Gweithio gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 3 – Adolygiadau Ymarfer Oedolion' o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant [Cymru] 2014.*

**Enw'r Unigolyn:** ………………………………

**Dyddiad Geni:** ……………  **Dyddiad marwolaeth:** ………………..

**C1** A oedd achos o gam-drin neu esgeuluso'r unigolyn yn hysbys neu'n cael ei amau cyn dyddiad y farwolaeth, o bosibl oherwydd anaf a oedd o bosibl yn peryglu bywyd, neu nam difrifol a pharhaol i iechyd neu ddatblygiad?

**Oedd** ☐ **ewch i C2** **Nac oedd** ☐ **ewch i C2**

**C2** A yw'r unigolyn wedi marw neu wedi cael anaf sydd o bosibl yn peryglu bywyd neu nam iechyd difrifol a pharhaol? Gallai hyn gynnwys achosion pan mae rhywun wedi dioddef camdriniaeth a/neu gam-fanteisio rhywiol hynod ddifrifol.

**Ydy** ☐ **Nac ydy** ☐

***Os NA, ystyriwch a oes angen proses adolygu, e.e. Dynladdiad Domestig neu p'un a fyddai archwiliad achos neu ddigwyddiad Fforwm Proffesiynol Amlasiantaethol yn ddefnyddiol i gynorthwyo dysgu, er enghraifft o ran gweithio rhwng asiantaethau.***

***Os atebwyd YDY i'r uchod, ewch i C3.***

**C3** A yw marwolaeth yr unigolyn, anaf sydd o bosibl yn peryglu bywyd, neu nam difrifol a pharhaol i'w iechyd a'i ddatblygiad o bosibl yn gysylltiedig â chamdriniaeth neu gam-fanteisio corfforol, emosiynol neu rywiol neu esgeulustod?

**Ydy** ☐ **Nac ydy** ☐

***Os NA, ystyriwch a fyddai mathau eraill o broses adolygu neu ddysgu yn ddefnyddiol ar gyfer yr achos hwn.***

***Os YDY, dylid argymell Adolygiad Ymarfer Oedolion. Parhewch i C4.***

**C4** A oedd yr unigolyn yn rhywun y mae awdurdod lleol wedi penderfynu cymryd camau i'w ddiogelu rhag cael ei gam-drin neu'i esgeuluso yn dilyn ymchwiliad gan awdurdod lleol ar unrhyw ddyddiad yn ystod y 6 mis cyn dyddiad y digwyddiad sbarduno?

**Oedd** ☐ **Nac oedd** ☐

***Os OEDD, dylid argymell Adolygiad Ymarfer Oedolion estynedig.***

**Atodiad 6**

## Argymhelliad i Gadeirydd Bwrdd Diogelu Oedolion Rhanbarthol CWMPAS oddi wrth Is-Grŵp Adolygu Ymarfer Oedolion CWMPAS

**Oddi wrth:** xxxxx, Cadeirydd yr Is-Grŵp Adolygu Ymarfer Oedolion

**At:** xxxxx, Cadeirydd Bwrdd Gweithredol CWMPAS

**Parthed:** **CWMPAS */**** (   )**

**Dyddiad yr Argymhelliad:**

| **Amlinelliad bras o'r Achos** |
|---|
| |

| **Argymhelliad** |
|---|
| Mae'r Is-Grŵp Adolygu Ymarfer Oedolion wedi ystyried yr achos hwn ac yn argymell ei fod yn bodloni'r meini prawf ar gyfer: |
| **Adolygiad Cryno** ☐<br>**Adolygiad Estynedig** ☐ |
| Os na fodlonir y meini prawf ar gyfer yr adolygiadau uchod, pa broses adolygu arall fydd yn cael ei chynnal: |
| **Fforwm proffesiynol amlasiantaethol**<br>**Dim adolygiad**<br>**Proses adolygu arall** |
| *Nodwch neu rhowch fanylion am broses adolygu arall, e.e. Adolygiad Dynladdiad Domestig:*<br>……………………………………………………………………………………………………<br>……………………………………………………………………………………… |

| |
|---|
| |

| **Penderfyniad** | | |
|---|---|---|
| Unfrydol | ☐ | |
| Mwyafrif | ☐ | (Cydbwysedd y pleidleisiau……..) |

| **Rhesymwaith dros y Penderfyniad/yr Argymhelliad**<br><br>Dylai hyn gynnwys:<br>• Meini prawf arweiniad<br>• Ystod yr adolygiadau a ystyriwyd<br>• Mathau eraill o adolygiadau a ystyriwyd i fodloni anghenion yr achos<br>• Sut bydd anghenion unrhyw adolygiad arall yn cael eu hymgorffori yn y cylch gorchwyl<br>• Os yw'r penderfyniad yn un mwyafrif – esboniad a chanlyniad. |
|---|
| |

**Atodiad 7**

# Penderfyniad Cadeirydd Bwrdd Diogelu Oedolion Rhanbarthol CWMPAS o Is-Grŵp Adolygu Ymarfer Oedolion CWMPAS

**Parthed: CWMPAS */**** (   )**

**Rydw i'n cytuno â'r argymhelliad** ☐

**Rydw i'n cytuno â'r argymhelliad gyda'r diwygiadau canlynol:-** ☐

**Rydw i'n anghytuno â'r argymhelliad** ☐

*Os ydych yn anghytuno, rhowch resymau pam, a'r camau arfaethedig:-*

Llofnod:

Teitl: Cadeirydd

Dyddiad:

Rhif Ffôn:

---

**Mewn trafodaeth â Chadeirydd yr Is-Grŵp**

Dyddiad i gyflwyno gwybodaeth i BDOCGC ……….…………

Dyddiad yr anfonwyd gwybodaeth i Lywodraeth Cymru ……………………

**Atodiad 8**

## Amlinelliad Cychwynnol Arfaethedig o'r Adolygiad

*(Amlinelliad cychwynnol yw hwn, a bydd angen ei ddiweddaru wrth i'r adolygiad fynd rhagddo)*

**Parthed: CWMPAS */**** (   )**

### Cyfnod y mae'r adolygiad yn ei gwmpasu yn unol ag arweiniad

| | | | |
|---|---|---|---|
| **0-6 mis** | ☐ | **6-12 mis** | ☐ |

### Rhesymwaith ar gyfer y cyfnod

| |
|---|
| |

| | |
|---|---|
| **Mwy na 12 mis** | ☐ |

| |
|---|
| *Os yw'n fwy na 12 mis – Gan fod hyn y tu allan i'r amserlen a argymhellir yn yr arweiniad, a fyddech cystal â nodi'r rhesymwaith?* |
| |

## Asiantaethau sy'n gysylltiedig â'r achos sy'n cael eu hadolygu

(*Dylech gynnwys enw a dynodiad os ydynt yn hysbys*)

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Darparwr Gofal | ☐ | | Heddlu | ☐ | |
| Tai | ☐ | | Gwasanaeth Prawf | ☐ | |
| Bwrdd Iechyd Lleol | ☐ | | Iechyd Cyhoeddus Cymru | ☐ | |
| Ymddiriedolaeth GIG | ☐ | | Gwasanaethau Cymdeithasol | ☐ | |
| Bwrdd Diogelu Arall | ☐ | | Trydydd Sector | ☐ | |
| Arall (nodwch os yw'n hysbys neu os nad yw wedi'i nodi eto): | ☐ | | | | |

## Asiantaeth a nodwyd i Gadeirio'r Panel Adolygu

(*Dylech gynnwys enw a dynodiad os ydynt yn hysbys*)

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Darparwr Gofal | ☐ | | Heddlu | ☐ | |
| Tai | ☐ | | Gwasanaeth Prawf | ☐ | |
| Bwrdd Iechyd Lleol | ☐ | | Iechyd Cyhoeddus Cymru | ☐ | |
| Ymddiriedolaeth GIG | ☐ | | Gwasanaethau Cymdeithasol | ☐ | |
| Bwrdd Diogelu Arall | ☐ | | Trydydd Sector | ☐ | |
| Arall (nodwch os yw'n hysbys neu os nad yw wedi'i nodi eto): | ☐ | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **A yw'r Cadeirydd yn annibynnol yn yr ystyr nad yw wedi cymryd rhan o gwbl yn yr achos/wedi goruchwylio'r achos?** | Ydy | ☐ | Nac ydy | ☐ |
| ***Rhesymwaith dros ddewis y Cadeirydd:*** | | | | |

## Cylch Gorchwyl ar gyfer Adolygiad Ymarfer Oedolion Cryno / Estynedig

### (Nodwch y Cyfeiriad ar gyfer yr Adolygiad)

**Bydd materion craidd i fynd i'r afael â nhw yng nghylch gorchwyl yr adolygiad yn cynnwys:**

Archwilio gweithio rhwng asiantaethau a'r gwasanaeth a ddarparwyd ar gyfer yr unigolyn trwy gylch gorchwyl diffiniedig.

Gofyn am gyfraniadau at yr adolygiad gan yr unigolyn/unigolion ac aelodau priodol o'r teulu a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am agweddau allweddol ar gynnydd.

Nodi materion penodol i'w hegluro ymhellach. (*Rhestrwch faterion sy'n berthnasol i achos penodol.*)

Llunio adroddiad i'w gyhoeddi, a chynllun gweithredu.

**Tasgau craidd**

Pennu a yw penderfyniadau a chamau gweithredu yn yr achos yn cydymffurfio â pholisi a gweithdrefnau gwasanaethau a enwyd, a'r Bwrdd.

Archwilio gweithio rhwng asiantaethau a'r gwasanaeth a ddarparwyd ar gyfer yr unigolyn a'r teulu.

Pennu i ba raddau yr oedd penderfyniadau a chamau gweithredu yn canolbwyntio ar yr unigolyn.

Chwilio am gyfraniadau at yr adolygiad gan aelodau priodol o'r teulu a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am agweddau allweddol ar gynnydd.

Ystyried unrhyw ymchwiliadau neu achosion cyfochrog sy'n gysylltiedig â'r achos.

Cynnal digwyddiad dysgu ar gyfer ymarferwyr, a nodi adnoddau angenrheidiol.

**Rolau a chyfrifoldebau mynegol:**

Bydd Cydlynydd y Bwrdd yn gyfrifol am gynnal cysylltiadau â'r holl asiantaethau perthnasol, teuluoedd a phobl eraill sy'n gysylltiedig â'r achos.

Bydd Cadeirydd y *Panel Adolygu* yn rhoi gwybod i Gadeirydd y Bwrdd ac is-grŵp y Bwrdd am newidiadau arwyddocaol yng nghwmpas yr adolygiad a bydd y cylch gorchwyl yn cael ei ddiweddaru yn unol â hynny.

Cadeirydd y Bwrdd fydd yn gyfrifol am wneud yr holl sylwadau ac ymatebion cyhoeddus i'r cyfryngau ynglŷn â'r adolygiad hyd nes y caiff y broses ei chwblhau. Rhagwelir na fydd unrhyw wybodaeth yn cael ei datgelu i'r cyhoedd, heblaw Adroddiad Terfynol y Bwrdd.

Bydd y Bwrdd a'r *Panel Adolygu* yn gofyn am gyngor cyfreithiol ar yr holl faterion sy'n ymwneud â'r adolygiad. Yn benodol, bydd hyn yn cynnwys cyngor ar y canlynol:

- cylch gorchwyl;
- datgelu gwybodaeth;
- arweiniad i'r *Panel Adolygu* ar faterion yn ymwneud â chyfweld ag aelodau unigol o staff.

**Tasgau penodol y Panel Adolygu**

Nodi a chomisiynu gwaith adolygydd/adolygwyr i weithio gyda'r *Panel Adolygu* yn unol ag arweiniad ar gyfer adolygiadau cryno ac estynedig.
Cytuno ar yr amserlen.
Nodi asiantaethau, gwasanaethau perthnasol a gweithwyr proffesiynol i gyfrannu at yr adolygiad, creu llinell amser a chrynodeb achos cychwynnol, a nodi unrhyw gamau uniongyrchol a gymerwyd eisoes.

Creu llinell amser gyfun, dadansoddiad cychwynnol a rhagdybiaethau.

Cynllunio digwyddiad dysgu ar gyfer cyfranogwyr gyda'r adolygydd/adolygwyr, i gynnwys nodi mynychwyr a threfniadau ar gyfer eu paratoi a'u cynorthwyo cyn ac ar ôl y digwyddiad, a threfniadau ar gyfer adborth.
Cynllunio trefniadau cyswllt yr adolygydd/adolygwyr gyda'r unigolyn ac aelodau'r teulu cyn y digwyddiad.
Derbyn ac ystyried yr adroddiad adolygu ymarfer oedolion drafft i sicrhau bod y cylch gorchwyl wedi'i fodloni, yr aethpwyd i'r afael â'r rhagdybiaethau cychwynnol a bod unrhyw ddysgu ychwanegol yn cael ei nodi a'i gynnwys yn yr adroddiad terfynol.
Cytuno ar gasgliadau o'r adolygiad a chynllun gweithredu amlinellol, a gwneud trefniadau ar gyfer cyflwyno i'r Bwrdd ei ystyried a chytuno arno.
Cynllunio trefniadau i roi adborth i aelodau'r teulu a rhannu cynnwys yr adroddiad ar ôl cwblhau'r adolygiad a chyn ei gyhoeddi.

**Tasgau'r Bwrdd Diogelu Oedolion**

Ystyried a chytuno ar unrhyw bwyntiau dysgu'r Bwrdd i'w hymgorffori yn yr adroddiad neu'r cynllun gweithredu terfynol.
Mae'r *Panel Adolygu* yn cwblhau'r adroddiad a'r cynllun gweithredu.
Mae'r Bwrdd yn gofyn i asiantaethau perthnasol am sylwadau terfynol cyn ei gymeradwyo a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru.
Cadarnhau'r trefniadau ar gyfer rheoli'r cynllun gweithredu amlasiantaethol gan yr Is-Grŵp Adolygu, gan gynnwys sut bydd gwelliannau a ragwelir i'r gwasanaeth yn cael eu nodi, eu monitro a'u hadolygu.
Cyhoeddi'r cynllun ar wefan y Bwrdd.
Cytuno ar ledaenu ymhlith asiantaethau, gwasanaethau perthnasol a gweithwyr proffesiynol.
Cadeirydd y Bwrdd fydd yn gyfrifol am wneud yr holl sylwadau ac ymatebion cyhoeddus i'r cyfryngau ynglŷn â'r adolygiad hyd nes y caiff y broses ei chwblhau.

**Rhannu Gwybodaeth a Chyfrinachedd**

Wrth weithio gyda gwybodaeth sensitif mewn perthynas ag adolygiad ymarfer oedolion, mae'r holl asiantaethau wedi cytuno ar ffiniau cyfrinachedd. Mae'r broses hon yn parchu'r ffiniau cyfrinachedd hynny, ac fe geir dealltwriaeth ar y cyd bod:

- Cyfarfod y Panel yn cael ei alw o dan arweiniad *'Gweithio gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 3 – Adolygiadau Ymarfer Oedolion'* o Ddeddf Gwasanaethau a Llesiant [Cymru] 2014.
- Bydd datgelu gwybodaeth y tu allan i'r Panel y tu hwnt i'r hyn a gytunwyd yn y cyfarfod yn cael ei ystyried yn achosi o dorri ffiniau cyfrinachedd yr unigolyn, ac yn achos o dorri ffiniau cyfrinachedd yr asiantaethau dan sylw.
- Os credir bod caniatâd i ddatgelu yn hanfodol, dylid gofyn am ganiatâd cychwynnol gan Gadeirydd y Panel, a bydd penderfyniad yn cael ei wneud ar sail yr egwyddor 'angen gwybod'.
- Fodd bynnag, Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru sydd â'r cyfrifoldeb terfynol am ddatgelu gwybodaeth i drydydd parti gan y Panel

Amlasiantaethol, a rhaid cyfeirio hyn at Reolwr Busnes y Bwrdd i gael awdurdod i ddatgelu'r wybodaeth.

Bydd datganiad cyfrinachedd yn cael ei lofnodi ym mhob cyfarfod Panel gan yr holl fynychwyr i ail-gadarnhau'r ffiniau y rhennir gwybodaeth oddi mewn iddynt.

Rhaid egluro perchnogaeth yr holl wybodaeth a dogfennau er mwyn cael caniatâd priodol gan y sefydliad perthnasol cyn eu rhannu. Gall sefydliadau ddim ond rhannu gwybodaeth sy'n eiddo iddyn nhw neu sydd wedi cael ei chychwyn ganddyn nhw.

Dylai'r Panel egluro a chytuno ar y drefn o ran cyfrifoldeb am ofyn am wybodaeth gan bob sefydliad (gan gynnwys oddi wrth ddarparwyr annibynnol), fel y bo'n briodol.

Bydd holl aelodau'r Panel yn cadw at egwyddorion Deddf Diogelu Data 1998 wrth drin a thrafod gwybodaeth bersonol fel rhan o'r broses adolygu ymarfer oedolion.

## Penodi Adolygydd sy'n Annibynnol ar Reoli'r Achos

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **A fydd adolygydd annibynnol yn cael ei benodi?** | Bydd | ☐ | Na fydd | ☐ |
| **A yw enw a dynodiad yr adolygydd annibynnol yn hysbys?** | Ydy | ☐ | Nac ydy | ☐ |
| *Os **ydy** nodwch ddynodiad enwebedig yr adolygydd annibynnol, yn ogystal ag unrhyw wybodaeth ychwanegol):* | | | | |

## Adolygiad sy'n Annibynnol ar Reoli'r Achos – Adolygiad Estynedig

Yn achos adolygiad estynedig, eir i'r afael â'r cwestiynau craidd canlynol, yn unol â'r arweiniad gan yr adolygwyr yng Nghylch Gorchwyl yr Adolygiad.

- P'un a oedd gwybodaeth neu hanes perthnasol blaenorol am yr oedolyn sydd mewn perygl a/neu aelodau o'r teulu yn hysbys ac wedi cael ei hystyried yn asesiad, cynllunio a phenderfyniadau'r gweithwyr proffesiynol ynglŷn â'r oedolyn mewn perygl, y teulu a'u hamgylchiadau. Sut cyfrannodd y wybodaeth honno at y canlyniad ar gyfer yr oedolyn mewn perygl.
- P'un a oedd y camau gweithredu a nodwyd i ddiogelu'r oedolyn mewn perygl yn gadarn ac yn briodol ar gyfer yr oedolyn hwnnw, a'i amgylchiadau.
- P'un a gafodd y camau gweithredu eu rhoi ar waith yn effeithiol, eu monitro a'u hadolygu a ph'un a gyfrannodd yr holl asiantaethau yn briodol at ddatblygu a chyflawni'r holl gamau gweithredu amlasiantaethol.
- Yr agweddau ar y camau gweithredu a weithiodd yn dda, a'r rheiny na weithiodd cystal, a pham. Y graddau yr oedd asiantaethau'n herio'i gilydd ynglŷn ag effeithiolrwydd y camau gweithredu, gan gynnwys cynnydd yn erbyn canlyniadau ar gyfer yr oedolyn mewn perygl. P'un a alwyd am y protocol ar gyfer anghytuno proffesiynol.
- P'un a gafodd dyletswyddau statudol priodol yr asiantaethau oedd yn gweithio gyda'r oedolyn mewn perygl a'r teulu eu cyflawni.
- P'un a oedd unrhyw rwystrau neu anawsterau yn yr achos hwn wnaeth atal asiantaethau rhag cyflawni eu dyletswyddau (dylai hyn gynnwys ystyried materion sefydliadol a materion cyd-destunol eraill fel ei gilydd).

Gallai materion perthnasol pellach mewn perthynas ag argymhellion yr achos gael eu nodi gan y *Panel Adolygu* a/neu'r adolygwyr hefyd.

*Unrhyw gwestiynau penodol ychwanegol sy'n briodol i'w codi ar hyn o bryd?*

| | | |
|---|---|---|
| **Brasamcan o gost (os yw'n hysbys) yr adolygydd annibynnol, a sut bydd y gost yn cael ei thalu** | £ …………………… | |
| | | |
| **Costau ychwanegol a nodwyd (os yw'n hysbys).**<br>Nodwch: | £ …………………… | |
| | | |
| **Dyddiad cyfarfod cyntaf y Panel Adolygu** | …………………………………………… | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **A fydd yr adroddiad yn cael ei gwblhau o fewn amserlen yr Arweiniad?**<br>*h.y. 6 mis o'r dyddiad cyfeirio* | Bydd | ☐ | Na fydd | ☐ |
| **Nodwch unrhyw faterion a allai effeithio ar yr amserlen, a sut bydd y rhain yn cael eu rheoli:-** *Dylech gynnwys materion fel:- Erlyniad troseddol / Penderfyniad y Crwner* | | | | |
| | | | | |

| | |
|---|---|
| **Y dyddiad a ragwelir ar gyfer cwblhau'r adroddiad** | ……………………………………………. |

I'w lenwi gan Gadeirydd yr Is-Grŵp Adolygu Ymarfer

Oedolion a Monitro Ansawdd:

Llofnod ………………………………….…………………..

Teitl …………………………………………………………..

Dyddiad ………………………………………..……………

Rhif ffôn …………………………………………….

| Asiantaethau | Ie | Na | Rheswm |
|---|---|---|---|
| AGGCC | | | |
| Estyn | | | |
| AGIC | | | |
| Arolygiaeth Cwnstabliaeth EM | | | |
| Arolygiaeth Prawf EM | | | |

**At ddefnydd Llywodraeth Cymru yn unig**

Dyddiad derbyn y wybodaeth ……… …………………………………………………….

Dyddiad anfon y llythyr cydnabyddiaeth at Gadeirydd y Bwrdd ………………………..……….

☐ ☐

☐ ☐

☐ ☐

☐ ☐

☐ ☐